
Atodiad 9: Y themâu allweddol a ddaw i'r amlwg fel rhan o'r ymgynghoriad ar y CDLI Diwygiedig Ail Adneuo

Y cyflenwad tai a'r gofyniad twf tai

Daeth nifer o sylwadau i law a oedd yn gwrthwynebu lefel y twf arfaethedig a amlinellwyd yn y CDLI Diwygiedig, ac yn ceisio lefel uwch o dwf tebyg i'r hyn a amlinellwyd yn y CDLI presennol. Roedd llawer o'r rhain yn rhagsylwadau i gefnogi cynnwys tir heb ei ddyrannu o fewn y cynllun.

I'r gwrthwyneb, daeth sylwadau i law hefyd a oedd yn ceisio lleihau lefelau'r twf a nodir yn y cynllun. Roedd y sylwadau hyn yn nodi y dylai targed mwy realistig ddilyn amcanestyniadau Llywodraeth Cymru. Yn eu barn nhw byddai hyn yn lleihau lefelau'r mudo sy'n gwanhau'r iaith Gymraeg a diwylliant unigryw aneddiadau'r Sir, ac yn lleihau'r straen a wynebir o fewn y system iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae lefel y twf a nodir yn y CDLI Diwygiedig yn ceisio cydbwysu anghenion cymunedau gwledig a threfol, gan adlewyrchu'r gyfradd adeiladu flynyddol uchelgeisiol ond realistig, ac yn ceisio cyflawni Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor, a'i amcanion o ran adfywio a chreu swyddi.

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud mewn perthynas â'r gofynion twf tai a'r cyflenwad tai, a bydd rhagor o dystiolaeth ddemograffig o'r boblogaeth a'r aelwydydd yn hysbysu ac yn cefnogi dull y Cyngor o ran yr archwiliad.

Dosbarthu Tai

Cafwyd sylwadau ynghylch dosbarthiad twf tai a'r defnydd o 'Glystyrau' fel rhan o'r hierarchaeth aneddiadau. Er na ddaeth unrhyw wrthwynebiadau sylfaenol i law, roedd yr ymatebion yn ceisio cydnabod yr angen i gyfeirio'r rhan fwyaf o'r datblygiad i leoliadau cynaliadwy yn y Sir. Mae'r ymatebion i'r Cynllun yn cynnwys ymholiadau'n ymwneud â rôl a thwf aneddiadau gwledig o fewn y strategaeth.

Cafwyd sylwadau hefyd ynghylch Polisi HOM3, sy'n ceisio darparu cynigion tai mewn aneddiadau a ddiffinnir fel pentrefi gwledig. Roedd y sylwadau'n ceisio cynyddu'r cap datblygu o 10% i ddarparu mwy o dai mewn aneddiadau gwledig er mwyn cynnal anghenion cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y pentrefi hynny. Yn ail, cafwyd sylwadau a oedd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu safleoedd ar y cyd â sylwadau a gafwyd ynghylch Polisi SD1 - Terfynau Datblygu.

Bydd y Cyngor, wrth ymateb i'r sylwadau a gafwyd, yn ymgymryd â gwaith pellach yn ymwneud â Haen 4 yr hierarchaeth aneddiadau ac yn dangos y rôl sylweddol y mae'r pentrefi hyn yn ei chwarae wrth gefnogi gwledig cymdeithasol, economaidd ac ieithyddol eu cymunedau. Yn ogystal, bydd y taflwybr tai a'r sylfaen dystiolaeth gysylltiedig yn parhau i dynnu sylw at leoliad a chyfradd darparu tai yn y Sir.

Manwerthu

Mae gan y CDLI rôl o ran cefnogi canol trefi a'r sector manwerthu yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r sector manwerthu wedi gweld newidiadau a heriau sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'r CDLI yn ceisio darparu fframwaith i gefnogi sector manwerthu Sir Gaerfyrddin i

addasu a ffynnu fel y gall barhau i ddiwallu anghenion cymunedau'r Sir. I'r perwyl hwn, cyhoeddwyd Astudiaeth Adwerthu wedi'i diweddarau ar gyfer Sir Gaerfyrddin ym mis Ionawr 2023 i gefnogi'r gwaith o lunio'r CDLI ac i roi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran darpariaeth manwerthu, angen a'r dewisiadau a'r tueddiadau siopa diweddaraf yn y Sir.

Hyfywedd Datblygu a Thai Fforddiadwy

Er bod nifer cyfyngedig o ymatebion wedi dod i law mewn perthynas â'r polisïau Tai Fforddiadwy, mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd cyflawni ei nodau strategol o fanteisio i'r eithaf ar ddatblygu tai fforddiadwy.

Mae rhagor o waith tystiolaethol wedi'i gwblhau a bydd rhagor o waith yn cael ei wneud ar hyfywedd Datblygu sy'n llywio'r targedau tai fforddiadwy. Mae hyn yn cynnwys Gweithdy i Randdeiliaid ynghylch Hyfywedd ym mis Medi 2023 sydd wedi'i baratoi i lywio'r gwaith hyfywedd ac i gael consensws ynghylch materion allweddol a mewnbwn hyfywedd.

Sipsiwn a Theithwyr

Mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn ofynnol iddo ddarparu astudiaeth gyfredol o ran asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer cyfnod y cynllun a gynhaliwyd cyn yr Ymgynghoriad Adneuo. Mae angen i Lywodraeth Cymru gadarnhau hyn cyn archwilio'r Cynllun.

Mae'r CDLI Adneuo wedi cydnabod bod safle Sipsiwn a Theithwyr newydd wedi'i ddyrannu yn Llanelli i ddiwallu'r angen am dai, yn ogystal ag estyniad wedi'i ddyrannu i Safle Teithwyr Pen-y-bryn yn y Bynea.

Sylwadau ar Safleoedd Penodol

Mae nifer o sylwadau wedi dod i law ynghylch dyrannu safleoedd tai o fewn y Cynllun. Er bod nifer o'r sylwadau yn cefnogi'r safleoedd a nodir yn y Cynllun (dros 100 o sylwadau), mae nifer fwy yn gwrthwynebu eu bod yn cael eu cynnwys yn y Cynllun (dros 400 o sylwadau), yn enwedig o ran diffyg cyflawni'r safleoedd a ddyrannwyd ar hyn o bryd. Yn ogystal, cafwyd tua 30 o sylwadau a oedd yn cefnogi safleoedd bach (< 5 uned) o fewn terfynau datblygu, a dros 120 o wrthwynebiadau i safleoedd o'r fath.

Bydd y Cyngor yn gwneud gwaith pellach lle bo angen i gefnogi'r gwaith o gynnwys y safleoedd a ddyrannwyd, gan gynnwys defnyddio datganiadau o dir cyffredin gyda datblygwyr ar y safleoedd mwy a ddyrannwyd i gadarnhau eu bod yn cael eu cynnwys, tra bydd trafodaethau parhaus yn cael eu cynnal gyda datblygwyr ynghylch y dulliau cyflawni o ran safleoedd llai.

Y Gymraeg a Diwylliant Cymru

Mae llawer o'r sylwadau a ddaeth i law ynghylch y Gymraeg yn rhan o'r ystyriaethau ehangach hynny o ran lefel a dosbarthiad gofodol twf fel y nodir yn y Cynllun, ynghyd â'r trywydd strategol i'w ddilyn.

Mynegwyd ystod o safbwyntiau hefyd o ran dull polisi arfaethedig y Cyngor, yn enwedig o ran y CDLI Diwygiedig o ystyried bod Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd yn cael ei hystyried yn ardal o sensitifrwydd ieithyddol.

Dylid nodi, wrth ymateb i faterion o'r fath, fod y Cyngor eisoes wedi paratoi tystiolaeth, yn benodol ar ffurf Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (Rhagfyr 2019). Wrth symud ymlaen, mae rhagor o dystiolaeth wedi'i pharatoi. Roedd hyn yn cynnwys adeiladu ar yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac ymgymryd â gwaith dadansoddi pellach o ran rhagamcanion poblogaeth ac aelwydydd/data mudo a hefyd diweddaru'r Astudiaeth Economaidd Dwy Sir ar gyfer Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn 2021. Roedd y diweddariad i'r Astudiaeth Economaidd yn rhoi ystyriaeth bellach i gysylltiadau rhwng y Gymraeg a'r economi yn y ddwy Sir.

Caeau Mynydd Mawr a Chilfach Tywyn

Ni chodwyd unrhyw bryderon sylfaenol mewn perthynas â'r materion hyn. Maent yn feysydd polisi sylfaenol bwysig wrth iddynt geisio cydbwysu buddiannau amgylcheddol, seilwaith a datblygiadol mewn dau leoliad strategol bwysig o fewn y Sir - sef ardal Cross Hands ac ardal Llanelli/Porth Tywyn.

Y polisiau yw Polisi NE4 'Datblygiad o fewn Ardal Canllawiau Cynllunio Atodol Caeau'r Mynydd Mawr' a Pholisi INF4 'Gwaredu Dŵr Wyneb Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli' yn y drefn honno.

Bydd y Cyngor yn ymwybodol bod ymgynghoriad eisoes wedi'i gynnal mewn perthynas â Chanllawiau Cynllunio Atodol Drafft (CCA) a baratowyd i gefnogi'r gwaith o weithredu'r polisiau uchod. Yn hyn o beth, rhoddwyd ymatebion i'r Cyngor i'r ymgynghoriad CCA yn ogystal ag argymhellion mewn perthynas â hynny. Unwaith eto, ni chodwyd unrhyw bryderon sylfaenol.

Ynni Adnewyddadwy

Daeth ymatebion i law yn ceisio newidiadau i eiriad y polisiau, gan gynnwys newidiadau i warchod y dirwedd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi codi gwrthwynebiad categori C gydag argymhelliad ar gyfer newidiadau i'r polisiau a'r sylfaen dystiolaeth.

Newid yn yr Hinsawdd

Er nad yw'n destun a gafwyd nifer sylweddol o sylwadau, bydd y CDLI Diwygiedig yn parhau i adlewyrchu datganiad yr argyfwng hinsawdd yn genedlaethol ac yn lleol a bydd yn atgyfnerthu ymhellach y cysylltiadau ag agenda Carbon Sero Net y Cyngor.

Cadwraeth Natur a Chymeriad y Dirwedd

O ran materion amgylcheddol, ni ystyrir bod unrhyw broblemau sylfaenol. Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu ag ymgynghoreion allweddol - yn arbennig Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru. Nid oes unrhyw bryderon sylfaenol wedi codi gan yr ymgynghoreion allweddol hyn o ran cyfeiriad strategol y Cynllun.

Cafwyd sylwadau mewn perthynas â pholisi BHE2 Cymeriad y Dirwedd. Roedd mwyafrif y sylwadau'n adlewyrchu pryderon ynghylch cael gwared ar Ardaloedd Tirwedd Arbennig fel y nodwyd yn y CDLI mabwysiedig presennol a defnyddio, yn lle hynny, asesiad o gymeriad y dirwedd gan ei ddatblygu drwy'r Canllawiau Cynllunio Atodol. Dylid nodi bod nifer sylweddol o'r sylwadau hyn wedi'u hysgogi gan y cynnig am beilonau trydan drwy Ddyffryn Tywi. Rhagwelir y bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Gymeriad y Dirwedd yn cael eu mabwysiadu o fewn y CDLI diwygiedig.

Perygl Llifogydd

Mae'r Cyngor wedi paratoi tystiolaeth ynghylch y mater hwn, ac roedd Cam 1 a Cham 1b Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd wedi'u cynnal a'u cyhoeddi fel rhan o'r Cynllun Adneuo cyntaf. Paratowyd cam 1 Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer rhanbarth de-orllewin Cymru mewn ymateb i ofynion y Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd a chynnwys y Nodyn Cyngor Technegol 15 sydd i ddod, yn ogystal ag Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer yr ail safleoedd Adneuo. Mae Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd dilynol wedi'i baratoi ar gyfer y Safle Sipsiwn a Theithwyr arfaethedig mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Seilwaith

Nid oes unrhyw broblemau sylfaenol mewn perthynas â seilwaith a'r CDLI Diwygiedig. O'r sylwadau a ddaeth i law nid oes yr un yn codi pryderon difrifol. Fodd bynnag, mae rhai pryderon bach ynghylch rhai ardaloedd o safbwynt priffordd. Bydd y Cyngor yn ceisio cael rhagor o dystiolaeth mewn perthynas â Cross Hands a'r seilwaith priffyrdd y mae ei angen i hwyluso unrhyw ddatblygiad newydd yn yr ardal wrth i'r Cynllun symud ymlaen at gael ei fabwysiadu. Bydd yn rhaid cyfeirio'n benodol at uwchraddio cyffordd 'ddiemwnt' yr A48 ynghyd â'r gwaith diweddar o gwblhau Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands. Bydd hyn yn lleddfu'r pwysau ar gyffordd 'chwe ffordd' yr A476 ym mhentref Gors-las yn ogystal â phwysau posibl a achosir gan ddatblygiadau ar y Safle Cyflogaeth newydd yn Nwyrain Cross Hands. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw wrthwynebiadau i'w gwneud.

Cyflogaeth

Mae dangos tystiolaeth o'r gallu i gyflawni dyraniadau cyflogaeth, a sicrhau nad oes gorgyflenwad yn faterion allweddol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (PPW Rhifyn 11) a'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (DPM Rhifyn 3). Yn sgil hyn mae ein dyraniadau cyflogaeth ar gyfer y CDLI Diwygiedig wedi'u symleiddio – gostyngiad o 113 hectar yn y CDLI mabwysiedig i lai na 72 hectar yn y Cynllun Diwygiedig.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi codi mater mewn perthynas â lefel bresennol y tir cyflogaeth a ddyrannwyd yn y Cynllun Diwygiedig ond, yn eu sylwadau ynghylch yr 2il Gynllun Adneuo, maent wedi gwneud sylwadau ar Lefelau Twf o ran y berthynas rhwng Cartrefi a Swyddi. Maent yn barnu, at ei gilydd, nad oes ganddynt bryderon sylweddol ynghylch y gofyniad tai a lefel y swyddi a gynigir (yn amodol ar yr eglurhad yn eu sylwadau).

Mwynau

Mae'r unig fater allweddol o bwys yn ymwneud â dosrannu cronfeydd wrth gefn, fel y nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol - Ail Adolygiad (RTS2). Ymdrinnir â materion o'r fath drwy baratoi Datganiadau o Dir Cyffredin rhwng yr awdurdodau lleol sy'n rhan o'r cyfansawdd. Cafwyd un sylw nodedig ar y mater hwn gan Lywodraeth Cymru. Roedd Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod Datganiad o Gydweithredu Is-ranbarthol (SSRC) wedi'i gynhyrchu yn Is-ranbarth Dinas Abertawe ac mae un arall yn cael ei baratoi yng ngorllewin Cymru, a hefyd mae Sir Gaerfyrddin yn gweithio

gyda'r isranbarth cyfagos i helpu i fodloni gofynion Datganiad Technegol Rhanbarthol 2 mewn perthynas â darparu tywod a graean. Ychwanegodd Llywodraeth Cymru y dylid cynnwys y ddau Ddatganiad o Gydweithredu Is-ranbarthol fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth pan fydd y cynllun yn cael ei gyflwyno i'w archwilio.

Mae'r Datganiad o Gydweithredu Is-ranbarthol ar gyfer Is-ranbarth Dinas Abertawe wedi'i gwblhau a bydd yn cael ei gyflwyno i'w archwilio fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth. O ran y Datganiad o Gydweithredu Is-ranbarthol ar gyfer gorllewin Cymru, mae trafodaethau'n dal i fynd rhagddynt a lluniwyd Datganiad Sefyllfa yn manylu ar statws presennol y Datganiad o Gydweithredu Is-ranbarthol sy'n datblygu, a fydd yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth i'w harchwilio.

Ffosffadau

Mae ffosfforws yn faethyn y mae lefelau isel ohono'n digwydd yn naturiol ac sy'n angenrheidiol ar gyfer afonydd iach. Mae'n cael ei ryddhau'n araf ar lefelau isel o ffynonellau naturiol, yn sgil erydiad naturiol ar lannau afonydd, er enghraifft. Fodd bynnag, pan fydd lefelau uchel o ffosffad, hwn yw'r maetholyn mwyaf niweidiol mewn dŵr croyw a gall arwain at ewtroffigedd - lle mae gormod o faethynnau yn achosi tyfiant trwchus o blanhigion a marwolaeth anifeiliaid yn dilyn hynny oherwydd diffyg ocsigen.

Ym mis Ionawr 2021 cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) dargedau newydd i leihau lefelau ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) Afonol Gwarchodedig ledled Cymru. Mewn perthynas â Sir Gaerfyrddin roedd hyn yn effeithio ar ddalgylchoedd oedd yn gysylltiedig ag Afonydd Tywi, Teifi, Cleddau a Gwy.

Roedd yr adolygiad yn dilyn tystiolaeth newydd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur y gallai tywydd cynhesach a sychach, a ragwelir oherwydd newid yn yr hinsawdd, leihau llif afonydd yn ystod yr haf ac felly cynyddu crynodiadau ffosffad. Mae hefyd yn seiliedig ar dystiolaeth newydd ynghylch effeithiau niweidiol ffosffadau ar rywogaethau ac ecosystemau dŵr. Mae'r effeithiau sy'n gysylltiedig â chanllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru yn eang ond maent hefyd yn cynnwys heriau uniongyrchol o ran camu ymlaen i fabwysiadu Cynlluniau Datblygu Lleol. Wrth ymateb i hyn, mae Sir Gaerfyrddin wedi mabwysiadu rôl ragweithiol a blaenllaw ledled Cymru, gan gynnwys o ran ymateb drwy baratoi CDLI. Mae hyn wedi cynnwys datblygu Cynlluniau Gweithredu ar gyfer rheoli maetholion, Strategaeth Rheoli Maetholion, Papur Pwnc, Datganiad Tir Cyffredin gyda phartneriaid, aelodaeth ganolog o'r Byrddau Rheoli Maetholion ac ymateb cadarnhaol drwy'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA). Mae'r rhain i gyd yn cael eu hategu gan yr offer a ddatblygwyd i gynorthwyo datblygwyr fel y gyfrifiannell cyfrifo maetholion a chanllawiau lliniaru.